

Cofnodion Cyfarfod 1af Fehefin 2021

Presennol :- Y Cadeirydd **Emma Chappell** a'r Cyngorwyr, Gareth Griffiths, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams. Rhian Evans-Hill a Richard Llwyd Jones

Croesawyd Y Cyngorydd Elwyn Jones a Dawn Parry

Ymddiheuriadau.

Idris Thomas, Lowri Hughes, Ceri Angharad Jones a Sasha Williams

Croeso a Gweddi

Rhodddwyd gair o groeso i bawb gan Y Cadeirydd ac estynnwyd Llongyfarchiadau i Elwyn Jones am ei ethol yn Is gadeirydd Cyngor Gwynedd

Rhodddwyd gair o weddi gan Richard LL. Jones.

Datgan buddiant

Dim

Cyfethol

Sedd Bethel – Enwebwyd Sasha Williams

Jane Pierce (1)

Richard Ll Jones (2)

Sedd Deiniolen – Enwebwyd Dawn Parry

Emma Chappell (1)

Elfed W Williams (2)

Estynnwyd croeso i'r ddwy.

Cofnodion Cyfarfod 4ydd Fai 2021

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Gareth Wyn Griffiths (1)

Elfed Williams (2)

Materion o'r Cofnodion.

Adre – Dal i ddisgwyl ymateb ynglŷn a phwy sydd yn gyfrifol am dorri y gwair o amgylch y tir o gwmpas eu eiddo.

Llwybr Wern i Fodandreg – Derbyniwyd ymateb gan swyddog o Cyngor Gwynedd yn cadarnhau nad oes dim un llwybr yn ardal Llanddeiniolen wedi ei ddargyfeirio.

Polisi Gorfodaeth – Wedi ei dderbyn o adran cynllunio – ond yn uniaith Saesneg

Cofnodion Pwyllgor Llwybrau 18fed Fai 2021

Nodwyd, fod Monitoriwn wedi ei roi ar lwybrau am flwyddyn, yna ychwanegwyd hyn i 3 blynedd, a bellach nid yw hyn wedi ei adolygu ers tua 20 mlynedd neu fwy. Hynny ydi rhoi

y gwaith ar y llwybrau heibio oedd Cyngor Sir, gan nad oedd cyllid, nodwyd fod hyn wedi ei ddatgan yn y cyfarfod ac angen ei ychwanegu i'r cofnodion.
Fel arall, cafwyd y cofnodion yn gywir

Jane Pierce (1)

Hefin Williams (2)

Materion o'r Cofnodion

Rydym angen Arwydd llwybr Bodandreg. Ychydig o bobl o gwmpas Bethel yn fodlon tacluso man docio gordyfiant – Awgrymu gwahodd un o griw cerdded Bethel ymhellach ymlaen i'r cyfarfod is bwyllgor llwybrau.

Pawb - angen rhestru llwybrau sydd hangen eu gwella.

Un llais - Cael gwybodaeth neu cyngor gan Un llais Cymru ynglŷn a torri tir Ffermwyr. Ydi yn gyfreithlon gan Ffarmwr dros dro i roi ffens dros gyfnod wyn.

Cofnodion o'r Is Bwyllgor Meysydd Chwarae 25ain Fai 2021

Cadw cofnodion am 18 mlynedd dim 10.

Fel arall, derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Gareth Griffiths (1)

Phyllis Ellis (2)

Materion o'r cofnodion

Bydd rhaid cael trafodaeth un ffordd neu'r llall ymhellach cyn gwneud penderfyniad. Mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli faint o gyfrifoldeb sydd ynglŷn a hyn. Yn gyfreithiol ac ariannol. Efallai fod yn well edrych ar y cae pêl droed ar wahân i'r parciau chwarae. Cyfarfod Is bwyllgor am 7 ar y 3ydd o Fehefin.

Gohebiaeth a materion eraill.

Twll ar ochor y lon yn ben lon Fachwen i Dinorwig – Wedi adrodd yn syth i'r Cyngor, ac mae'r gwaith wedi ei gwblhau ar frys.

Lonydd yn Bethel – bysus yn rhwystredig oherwydd y gwaith ar y lôn.

Trafnidiaeth i Gelli Gyffwrdd - Y lôn yma yn beryg bywyd gyda twristiaeth yn mynd a dod ar ei hyd, angen torri nôl y gwrychoedd ar ochor y ffordd.

Llythyr Parcio cartrefi modur yn Allt Ddu a Gallt y Foel

Er bod arwyddion yn nodi nad oes Aros Dros nos yn yr ardal, mae'r arwyddion yn rhy fach o lawer. Ar benwythnos Gŵyl y Banc, roedd 28 cerbyd wedi ei barcio yno dros nos, ynghyd ac ar Gallt y Foel, lle mae parcio yn beryg bywyd fel mae hi.

Yn ychwanegol i hyn, maent yn defnyddio cwt sydd yn y cae yn perthyn i ffermwr lleol fel tŷ bach Mae'n bwysig nodi, nad oes dim un o'r rhain yn cyfrannu at economi yr ardal drwy wneud hyn, ac mae hyn yn brysur fynd yn fater iechyd a diogelwch. Awgrymwyd i gysylltu a Swyddogion Traffig Cyngor Gwynedd er mwyn iddynt ymweld a'r safle.

Chwarel Dinorwig – Yna mae rhai wedi bod yn campio yn y chwarel.

Mynedfa Chwarel – Giât wedi malu wrth fynedfa i'r chwarel yn Dinorwig.

Cynllunio.

C21/0488/18/LL Siop Bethel – Cais i newid o siop yn ôl i dy Dim Gwrthwynebiad

Awdit Mewnol

Mae'r gwaith archwilio mewnol bellach wedi ei gyflwyno i'r adran Archwilio yng Nghyngor Gwynedd.

Seddi Gwag

Bellach, mae 2 sedd wag ar Y Cyngor sef 1 yn Nghlwt y Bont a'r llall ym Mhensaer'-waun. Os oes gan rhywun ddiddordeb, croeso i chi gysylltu a'r clerc neu un o'r cyngorwyr cymunedol.

Hysbysfyrddau

Gan na fydd yr hysbysfyrddau fwy na 4 metr, cafwyd cadarnhad nad oes angen cais cynllunio. Dim angen cais cynllunio gan na fydd ddim yn 4 metr.

Llwybrau

Llwybrau gyda diffygion wedi tynnu i sylw Cyngor Gwynedd yn disgwyl adroddiad yn ôl

Giât Mochyn, Carreg y Gath

Llwybr rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich, Deiniolen

Cae Goronwy

Llwybr 16 Rhiw Goch, Clwt Bont I Frynrefail

Tros y Waun I Dros y Waun Fach rhif 61, 61A, 63 a 64

Llwybr I Gegin Arthur

Llwybr Sinc - Tarmac yn waelod

Llwybr cefn yr Eglwys - Giât Mochyn, nid oes arwydd yno yn dweud llwybr cyhoeddus. Credu mai rhif 92 ydi'r llwybr.

Cwmni Till Hill - Byth wedi clirio'r coed sydd wedi eu torri ar lwybr tuag at Gegin Arthur na chwaith yn y cae ger Ynys Iago

Llwybr i'r chwith lon capel cefn y Waun am Rhwng y Ddwryd. Mae'r arwydd llwybr cyhoedda a'r polyn yn gorwedd ar lawr ac angen ei roi i fyny yn ôl.

Ffens llwybr gorlan. Wedi dymchwel, ac mae hi yn beryg gan fod yna dibyn i'r chwith.

Giat Mynedfa chwarel

O Gwmpas y Bwrdd

Penisar'-waun – arwydd wedi ymddangos fod y lon ger Tan y Gaer yn cau ar y 14eg.

Cysylltu i gael cadarnhad

Bethel - Llechi dal yn rhydd ar to hen Capel Bethel. Llechi a pren wedi disgyn i'r fynwent.

Tybed os oes angen cau y llwybr oherwydd diogelwch.

Lon o Cysegr i sgwâr Llanrug - Angen Ail beintio y linell wen ynghanol y lon.

Arwydd Llwybr Penrhos. – Angen tynnu sylw y Cyngor Sir a gyrru lluniau o loriau yn mynd drwy'r lon lle mae yna beipen nwy yn y wal.

Deiniolen – Llwybr Gorlan, llwyth o sbwriel yn cael ei lechio yno yn rheolaidd. Mae Meirion Thomas wedi bod yn clirio y llwybr yn rheolaidd, ers tua mis. Diolch o galon iddo am hyn. Os gwelwch yn dda, ewch a' ch sbwriel adref, neu ei roi yn y bin. Dewch i ni wella cyflwr ein pentrefi trwy eu cadw'n lan a thaclus.

Ffens llwybr gorlan. Wedi dymchwel, ac mae hi yn beryg gan fod yna dibyn i'r chwith. **Parcio Y Bull - Problemau wedi codi efo pobl yn aros yn y Bull.** Wedi Parcio ar hyd y lon lawr ar linellau melyn, a neb yn gallu troi i gefn Stryd Newydd dros y benwythnos. Er bod y Cyngor a sawl un wedi gwrthwynebu y cynllun yma oherwydd problemau parcio, sut mae'r adran gynllunio yn gallu cyfiawnhau ei ganiatáu.